Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Taylor o Bolton, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Blencathra, Cadeirydd, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Tŷ'r Arglwyddi

Iarll Kinnoull, Cadeirydd, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, Tŷ'r Arglwyddi

Y Farwnes Andrews OBE, Cadeirydd, Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi

William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Pwyllgor Materion Cymru, Tŷ'r Cyffredin

12 Tachwedd 2020

Annwyl bawb

**Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig**

Ysgrifennwn fel cynrychiolwyr tri Phwyllgor y Senedd sydd â phryderon ynghylch effaith bosibl Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ar ddatganoli, pe bai'r Bil yn symud ymlaen i'r llyfr statud heb ei ddiwygio yn sylweddol.

Mae llawer o'r ffocws ar y Bil, (fel y'i cyflwynwyd), hyd yma, yn ddealladwy, wedi bod mewn perthynas â Rhan 5 ar y Protocol Gogledd Iwerddon a'i gymalau a allai, pe'u cedwid, alluogi Gweinidogion y Goron i wyro oddi wrth rwymedigaethau rhyngwladol y DU o ran torri cyfraith ryngwladol. Rydym yn rhannu pryderon llawer o bobl am y darpariaethau hyn. Rydym yr un mor bryderus, fodd bynnag, am effaith y Bil ar ddatganoli. Byddai'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cael effeithiau cyfansoddiadol hirdymor y dylid eu hystyried yn ddifrifol iawn cyn i'r Bil fynd yn ei flaen ymhellach.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Bydd Rhannau 1-3 o'r Bil, ar fynediad i'r farchnad, yn gosod cyfyngiad ymarferol newydd ar effaith deddfwriaeth ddatganoledig. Cydnabuwyd hyn gan Lywodraeth y DU yn ei Nodiadau Esboniadol gwreiddiol ar y Bil, a ddywedai y bydd y Bil yn: "create a new limit on the effect of legislation made in exercise of devolved legislative or executive competence". Rydym yn rhagweld y byddai terfynau o'r fath yn effeithio'n fawr ar allu'r Senedd i lunio deddfau cydlynol a hygyrch sy'n diwallu anghenion a dyheadau dinasyddion Cymru. Er bod llawer o ddeddfwriaeth bresennol Cymru y tu allan i'r egwyddorion o ran mynediad at y farchnad, mae unrhyw ymgais i ddiweddaru, mireinio neu ddiwygio deddfwriaeth o'r fath fel arall yn peryglu colli'r amddiffyniad hwn yn rhinwedd y ffaith ei fod yn welliant sylweddol, sef term nad yw wedi'i ddiffinio yn y Bil. Pe bai deddfwriaeth newydd yng Nghymru yn cael ei chyflwyno'n ddiweddarach mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau, neu gymwysterau proffesiynol, byddai'n cael ei datgymhwyso ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith o ran y graddau y caiff ei chynnwys yn y Bil. Byddai hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar effaith, cyrhaeddiad a gorfodadwyedd y ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru. Yn wrthnysig, mae hyn yn wrthanogol i arloesi o ran polisi, ac mae hefyd yn tanseilio egwyddor datganoli.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei barn bod angen y Bil er mwyn rheoli dargyfeiriad yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio Ewropeaidd. Byddai eithriadau i egwyddorion mynediad at y farchnad yn Rhannau 1-3 o'r Bil, a fyddai'n caniatáu i ddeddfwrfeydd datganoledig ddatblygu deddfwriaeth sy'n briodol ar gyfer anghenion penodol eu gwledydd yn gulach eu cwmpas na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y rheolau sydd wedi llywodraethu gweithrediadau marchnad sengl yr UE. Er enghraifft, mae eithriadau sy'n gysylltiedig â diogelu'r amgylchedd neu ddiwylliant yn absennol. Rydym yn parhau i fod heb ein hargyhoeddi gan y rhesymeg a nodwyd hyd yma gan Lywodraeth y DU dros y newid hwn a chynnwys cyfres gyfyngedig iawn o eithriadau yn y Bil. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth y DU hyd yma wedi nodi ei rhesymeg dros gredu y byddai'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn awtomatig yn ceisio gwyro oddi wrth ei gilydd ar 1 Ionawr 2021 o ystyried eu hymrwymiad parhaus i'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

Mae canlyniadau'r Bil ar gyfer datganoli yn ymestyn y tu hwnt i'r egwyddorion o ran mynediad at y farchnad yn Rhannau 1-3. Mae Rhan 7 yn gwneud y Bil cyfan yn ddeddfiad gwarchodedig, sy'n ei atal rhag cael ei ddiwygio gan y deddfwrfeydd datganoledig ac yn ei warantu fel rhan barhaol o'r setliad cyfansoddiadol. Mae hefyd yn cadw rheolaeth o gymorthdaliadau yn ôl yn benodol i Senedd y DU, ac mae hynny'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Senedd. Ni welsom unrhyw gyfiawnhad argyhoeddiadol dros y cadw'n ôl hwn.

O ran Rhan 6, mae'n destun pryder mawr bod y Bil yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth y DU ariannu gweithgarwch mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Ni allwn weld unrhyw gyswllt rhesymegol rhwng y gofynion am bwerau o'r fath a gweithredu marchnad fewnol y DU.  Ymhellach, mae goblygiadau'r pwerau hyn i grant bloc Cymru yn parhau yn aneglur.

Rydym yn sylweddoli fod llawer o Aelodau Seneddol wedi codi'r pryderon hyn mewn dadleuon, gan gynnwys mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd yn dilyn Llythyr y Cwnsler Cyffredinol at y Llefarydd dyddiedig 15 Hydref 2020. Rydym yn ddiolchgar i'r Aelodau hynny am dynnu sylw at y materion cyfansoddiadol pwysig hyn.

Rydym, fodd bynnag, am dynnu sylw at bryder arall, sef y gallai unrhyw ddatrys y materion sy’n creu anghydfod yn Rhan 5 o'r Bil gysgodi materion sydd yr un mor bwysig fel y maent yn gymwys i’r cenhedloedd datganoledig, sef bod eu penderfyniad yn cael ei ystyried yn annheilwng i fynd ar ei drywydd neu yn ddiangen.

Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i’r Senedd am ei chydsyniad i’r Bil yn unol â chonfensiwn Sewel. Fe fyddwch yn ymwybodol, fel y mae pethau ar hyn o bryd, fod Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw mewn sefyllfa i argymell i'r Senedd y dylid rhoi cydsyniad. Mae confensiwn Sewel wedi cymryd rôl fwy blaenllaw yn ddiweddar, ac yn enwedig ers diystyru bod pob deddfwrfa ddatganoledig wedi gwrthod cydsynio i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael). O ran y pwynt olaf hwn, rhesymeg Llywodraeth y DU oedd bod yr amgylchiadau'n cael eu hystyried yn “anarferol” a'i bod yn angenrheidiol symud ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol, er nad oedd y gweinyddiaethau datganoledig wedi rhoi eu cydsyniad, er mwyn sicrhau bod gan bob rhan o'r DU y pwerau gofynnol i gyflawni ei rhwymedigaethau yn y Cytundeb Ymadael.

Yn ein barn ni, ni ellir defnyddio'r dadleuon hyn mewn perthynas â Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig. Nid ydym o'r farn bod angen y Bil ar gyfer llyfr statud gweithredol ar ôl ymadael â’r UE. Credwn hefyd y gellir rheoleiddio marchnad fewnol ledled y DU drwy fframweithiau cyffredin a phwerau presennol, sef safbwynt a gefnogir gan Hysbysiad y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau’r UE) ar 16 Hydref 2017.

Gobeithiwn felly, yn ystod eich gwaith craffu parhaus ar y Bil, y byddwch yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i roi sylw i’r diffygion sylweddol fel y maent yn ymwneud â datganoli.

Mae Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi pasio cynigion sy’n nodi eu gwrthwynebiad i'r Bil. Pe bai'r Senedd yn gwneud yr un penderfyniad, rydym o'r farn y

gallai goblygiadau cyfansoddiadol pasio’r Bil heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yn niweidiol iawn i'r DU gyfan.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder
a’r Cyfansoddiad

**Llyr Gruffydd AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**David Rees AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.